

ADRODDIAD I'R CABINET
25 HYDREF 2022

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyllideb Refeniw 2022/23 – Adolygiad Diwedd Awst 2022

Swyddog cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi bod effaith ariannol Covid ar rai meysydd yn parhau yn 2022/23, er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colled incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo eleni. Manylir ar y rhesymau penodol sydd yn effeithio'r adrannau yn rhan 5 o'r adroddiad, ond mae effaith y cynnydd mewn chwyddiant a phrisiau trydan yn benodol yn ffactor amlwg.
- O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, nodi bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd y gorwariant. I sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
 - yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion
 - yn ail, defnyddio £4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor
 - yn olaf, y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb referniw'r Cyngor am 2022/23, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Thai ac Eiddo yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Manylir ar effaith y cynnydd mewn chwyddiant, yn arbennig felly costau trydan sydd uwchlaw'r gyllideb yn Atodiad 1. Adroddir ar orwariant sylweddol gan pump o'r chwech adran, tra bod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

3. Covid

Mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 a £17.5 miliwn pellach yn 2021/22. Bu modd i Awdurdodau Lleol hawlio o gronfa caledi Llywodraeth Cymru i'w digolledu yn 2020/21 ac yn 2021/22, ond gan fod y gronfa bellach wedi dod i ben, mae'r pwysau yn disgyn ar y Cyngor yn 2022/23.

Er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn sgil Covid yn parhau mewn rhai meysydd.

4. Sefyllfa Arbedion

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod gwerth £33.4 miliwn sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £930k, tra bod £533k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

5. Adrannau'r Cyngor

Mae cynnydd mewn prisiau yn arbennig felly effaith prisiau trydan uwch i weld yn amlwg iawn ar yr adrannau. Ceir rhagolygon gorwariant sylweddol am amrywiol resymau mewn pum adran eleni. Mae'r prif faterion o fewn yr adrannau fel a ganlyn:

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £1.9 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £930k o arbedion. Pwysau ar lety cefnogol a pheccynnau taliadau uniongyrchol yn faterion yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn. Costau staff a diffyg incwm yn broblemus yng Ngofal Cymunedol.

5.2 Adran Addysg

Rhagwelir gorwariant o £1.3m gan yr Adran Addysg sydd o ganlyniad i effaith prisiau trydan uwch am gyfnod o chwe mis o Hydref 2022 ymlaen ar yr ysgolion. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

5.3 Byw'n Iach

O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Gwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4 miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd 2022/23. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf gwerth y cymorth sydd ei angen yw £842k. Costau trydan uwch sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant Byw'n Iach.

5.4 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes bwrdeistrefol yn parhau, gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Mae'r adran yn hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £533k mewn nifer o feysydd.

5.5 Tai ac Eiddo

Oblygiadau newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu pwysau ariannol sylweddol eleni. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o £3.2 miliwn eleni.

5.6 Corfforaethol

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol a hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog £1.1 miliwn yn fwy ffafriol.

6. Casgliad Cyffredinol

Sefyllfa gorwariant o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu arbedion, sgil effaith ariannol Covid, prisiau cynyddol trydan ynghyd â nifer o faterion eraill yn amlwg o fewn yr adrannau eleni. Rhagwelir y bydd yn rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn Ysgolion a'r Cyngor i gyllido'r bwlch ariannol o £7.1 miliwn a ragwelir am 2022/22.

7. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 24 Ionawr 2023 ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2022.

Atodiadau

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol